# Polisi Datblygu Casgliadau

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
## Gwasanaeth Amgueddfeydd Conwy

Dyddiad Cymeradwyo: Rhagfyr 2020

Dyddiad Adolygu: Rhagfyr 2025

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**

# Polisi Datblygu Casgliadau

**Gweithdrefn adolygu polisi:**
Bydd y Polisi Datblygu Casgliadau yn cael ei adolygu bob pum mlynedd neu os a phan y bydd unrhyw fater yn codi. Caiff y dyddiad y mae disgwyl i'r polisi gael ei adolygu nesaf ei nodi uchod. Bydd Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru / Cyngor Celfyddydau Lloegr yn cael eu hysbysu am unrhyw newidiadau i'r Polisi Datblygu Casgliadau, a goblygiadau unrhyw newidiadau o'r fath ar gyfer dyfodol casgliadau.

**Perthynas â Pholisïau a Chynlluniau eraill**
Mae'r polisi hwn yn gysylltiedig â Chynllun Rheoli a Chynnal a Chadw Cadwraeth Conwy; Cynllun i'r Dyfodol; Llawlyfr Gweithdrefnau Dogfennaeth, Adroddiad Arwyddocâd Casgliadau 2013. Yn ogystal â dogfennau allanol sy'n llywio gofal a chadwraeth fel: Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd 2016, Cod Moeseg Canllawiau Proffesiynol ICON 2020.

**1.0 Datganiad o Ddiben**
1.1. Cenhadaeth Gwasanaeth Amgueddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw:
***'Gwella ansawdd bywyd ar gyfer cymunedau Bwrdeistref Sirol Conwy. Rydym yn helpu pobl i ymgysylltu â threftadaeth, rhoi hwb i falchder lleol ac ymdeimlad o hunaniaeth. Rydym yn ymdrechu i ddod â budd i'r economi leol trwy alluogi twristiaeth treftadaeth i gyrraedd ei lawn botensial. Rydym yn gweithio i warchod, cofnodi a darparu mynediad at dystiolaeth gyfoethog o orffennol Conwy. Rydym yn hyrwyddo a dathlu ein casgliadau ac yn dal y rhain mewn ymddiriedolaeth ar gyfer y gymdeithas, gan weithio gyda'n cymunedau i ddod â'r gorffennol yn fyw er mwyn ysbrydoli, addysgu ac er mwynhad.'***

**1.2** Bydd y corff llywodraethu yn sicrhau fod caffael a gwaredu yn digwydd yn agored a gyda thryloywder.

**1.3** Mae gan yr amgueddfa ddiben hirdymor ac mae'n cadw casgliadau mewn ymddiriedolaeth er budd y cyhoedd ac mewn perthynas â'i hamcanion dynodedig. Felly mae'r corff llywodraethu yn derbyn yr egwyddor bod yn rhaid sefydlu rhesymau curadurol cadarn cyn rhoi ystyriaeth i gaffael i'r casgliad, neu i waredu unrhyw eitemau yng nghasgliad Gwasanaeth yr Amgueddfeydd.

**1.4** Bydd caffael y tu allan i'r polisi presennol a nodir ond yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol.

**1.5** Mae'r Gwasanaeth Amgueddfeydd yn cydnabod ei gyfrifoldeb wrth gaffael ychwanegiadau i'w gasgliadau, i sicrhau y bydd y broses o ofalu am gasgliadau, y trefniadau dogfennaeth a'r defnydd o gasgliadau yn diwallu gofynion Safon Achredu'r

Amgueddfeydd 2018. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gweithdrefnau cynradd SBECTRWM yr Ymddiriedolaeth Casgliadau ar gyfer rheoli casgliadau a hefyd defnyddio cronfa ddata MODES Compact. Bydd yn cymryd i ystyriaeth y cyfyngiadau ar gasglu o ganlyniad i ffactorau fel staffio, storio a gofalu am drefniadau casglu.

**1.6** Bydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ac yn gwneud pob ymdrech i beidio caffael, boed drwy brynu, rhodd, cymynrodd neu gyfnewid, unrhyw wrthrych neu sbesimen oni bai bod y corff llywodraethu neu'r swyddog cyfrifol yn fodlon y gall yr amgueddfa gaffael teitl dilys i'r eitem dan sylw.

**1.7** Ni fydd Gwasanaeth yr Amgueddfeydd yn ymgymryd â gwaredu a ysgogir yn bennaf gan resymau ariannol.

**2.0 Hanes y Casgliad**
Sefydlwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 1996 yn dilyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol. Cafodd gyfrifoldeb dros gasgliadau amgueddfeydd gan yr awdurdodau cyfagos, gan Gynghorau Clwyd a Gwynedd a chyn Gyngor Bwrdeistref Aberconwy a Chyngor Bwrdeistref Colwyn.

**2.1** *Maint a ffocws:* Roedd casgliad y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn cynnwys tua 1,250 o eitemau yn 2020, gan gynnwys paentiadau, deunydd archeolegol ac eitemau'n darlunio hanes cymdeithasol a diwydiannol.

**2.2** *Arddangosfeydd*: Mae rhan o gasgliadau y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn cael eu harddangos yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy: Amgueddfa ac Oriel Llandudno: Amgueddfa Syr Henry Jones; Llyfrgell Bae Colwyn, Neuadd y Dref Bae Colwyn; adeiladau dinesig CBSC; Tramffordd y Gogarth.

**2.3** *Archifau:* Mae llawer o gasgliadau'r Gwasanaeth Amgueddfeydd yn ymwneud â chasgliadau dogfennol neu ffotograffig sylweddol yn Archifau Conwy. Caiff diwydiannau lleol gan gynnwys pysgodfa cregyn gleision Conwy, Gwaith Alwminiwm Dolgarrog, a ffatri Hotpoint Cyffordd Llandudno eu cynrychioli'n dda mewn dogfennau, ffotograffau ac arteffactau. Mae cynrychiolaeth dda o ddeunydd archeolegol o'r Gogarth yng nghasgliad yr Amgueddfa hefyd ac mae yma fwyeill o Ffatri Bwyeill Graiglwyd.

**2.4** *Arwyddocâd*: Yn 2013 cafodd y casgliadau craidd eu hadolygu yn nhermau eu cyflwr a'u graddio yn nhermau eu harwyddocâd. Mae'r casgliadau canlynol wedi eu graddio fel rhai sydd mewn cyflwr da i weddol ac maent yn arwyddocaol o ran ailadrodd straeon Conwy drwy gasgliadau treftadaeth.

- *Archeoleg, Daeareg a Phaleontoleg*

Mae'r casgliad archeolegol yn cynnwys deunydd Ogof Kendrick sydd o bwys rhyngwladol, a ddyddiwyd gan yr Amgueddfa Brydeinig o 14,000 cyn y presennol, a

darganfyddiadau cynhanesyddol eraill e.e. ffonfwyeill a bwyeill o'r Oes Efydd, a darnau arian Rhufeinig. Mae'r casgliad daearegol yn cynnwys tua 70 o ffosilau a mwynau, yn bennaf o ardal y Gogarth a Llandudno, ac mae o arwyddocâd rhyngwladol. Mae yna amffora Rhufeinig a ddarganfuwyd yn Llandrillo-yn-Rhos a samplau archeolegol o ffatri bwyeill Neolithig Graiglwyd.

- *Casgliad Llyfrgell Conwy a'r Casgliadau Celf*

Mae'r casgliad yn cynnwys nifer o luniau a lithograffau o dirweddau lleol.

- *Hanes Economaidd: Diwydiannau*

Caiff Pysgodfa Cregyn Gleision Conwy ei gynrychioli gan nifer fechan o adnoddau ac eitemau twristiaeth addurnol. Caiff Ffatri Hotpoint yng Nghyffordd Llandudno ei gynrychioli drwy beiriannau golchi ac eitemau'n cynrychioli'r hyn oedd yn difyrru'r gweithwyr yn ystod eu hamser hamdden.

- *Casgliadau Milwrol - Casgliad Bradley/Casgliad Reckless*

Mae Casgliad Bradley yn cynnwys deunydd yr Ail Ryfel Byd yn ymwneud â James Bradley o Fae Colwyn a ddaeth yn garcharor rhyfel yn Burma (Myanmar). Mae Casgliad Reckless yn cynnwys swm bychan o ddeunydd yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf gan Sarjant Ernest Reckless a fu farw yn Gallipoli; mae yna sawl medaliwn a roddwyd gan Gyngor Dosbarth Trefol Llandudno i deuluoedd lleol a detholiad o fedalau o Ryfel De Affrica.

- *Casgliadau Hanes Cymdeithasol*

Mae'r Casgliad yn cynnwys ystod o eitemau unigol a chasgliadau bach sy'n ymwneud â bywydau pobl leol. O bwysigrwydd mae'r clybiau rhyfel Affricanaidd sy'n gysylltiedig â'r Parch William Hughes a'r Sefydliad Affricanaidd ym Mae Colwyn. Hefyd o arwyddocâd rhanbarthol mae: casgliad meddygol Rhoslan sy'n gasgliad cynhwysfawr o tua 230 o declynnau meddygol sy'n rhoi cipolwg ar arferion meddygol yn y 1940au; darn o'r cwch a ddefnyddiwyd yn wreiddiol i achub goroeswyr yn Nhrychineb Argae Dolgarrog (1925); cadair Eisteddfod wedi ei naddu'n gywrain, printiau a bathodynnau cysylltiedig; dillad o ddiwedd y 19$^{eg}$ ganrif a dechrau'r 20$^{fed}$ ganrif; casgliadau'n ymwneud â deunyddiau o eglwysi lleol, casgliad y sgowtiaid, eitemau i addurno'r cartref ac eitemau domestig e.e. teledu o'r 1950au a radio dransistor o'r 1960au.

- *Casgliadau Regalia Dinesig*

Casgliad cyflawn o ddeunydd dinesig yn ymwneud â thref Colwyn. Mae mwyafrif y casgliad o arian gan gynnwys dodrefn desg, cwpanau a phlaciau ar gyfer gwobrau wedi eu darparu gan unigolion pwysig lleol. Mae'r casgliad hefyd yn cynnwys ffotograffau o feiri, memrynau addurnol a deunydd sy'n gysylltiedig â phobl leol a threfi dramor sydd wedi gefeillio.

- *Cludiant Lleol*

Mae'r casgliad yn cynnwys nifer cymharol fach o ddeunydd gweithredol a hysbysebu yn ymwneud â Thramffordd y Gogarth a Rheilffordd Drydan Llandudno a Bae Colwyn.

- *Casgliadau Economaidd*

Mae gan y Casgliad Pwysau a Mesurau bwysigrwydd hanesyddol, esthetig a gwyddonol ac mae'n gasgliad bron yn gyflawn o bwysau a mesurau imperial wedi eu trosglwyddo gan Safonau Masnach yn dilyn y broses o drosglwyddo i'r system fetrig o ran mesur; *tocyn Aberconwy*, dyddiedig 1663 yw'r enghraifft gynharaf o fasnach yng Nghonwy.

**3.0 Themâu a blaenoriaethau ar gyfer casgliadau'r dyfodol**

**3.1** Mae datganiad Cenhadaeth Gwasanaeth yr Amgueddfeydd (gweler 1.1) yn gweithio ***'i ddiogelu, dogfennu a gwneud y dystiolaeth gyfoethog o orffennol Conwy yn hygyrch'.*** Drwy gadw at y datganiad hwn bydd CBSC yn caffael gwrthrychau sy'n adlewyrchu hanes, treftadaeth a diwylliant Bwrdeistref Sirol Conwy. Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar fynd ati'n rhagweithiol i gaffael eitemau a dangynrychiolir ar hyn o bryd ac i gryfhau dehongliad yn y dyfodol. Yn benodol, bydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn chwilio am eitemau y mae gan yr Awdurdod ddeunydd archifol ar eu cyfer. Er bod y Gwasanaeth Amgueddfeydd wedi elwa o storfa newydd, nid oes lle diderfyn ar gyfer casgliadau anarferol o fawr a chasgliadau o eitemau i'w cyffwrdd mewn amgueddfeydd.
Byddant yn caffael gwrthrychau sydd wedi'u defnyddio neu wedi'u gwneud yn ardal Bwrdeistref Sirol Conwy neu y mae'r fwrdeistref sirol yn berchen arnynt. Ni fydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn casglu eitemau sydd wedi'u dyblygu. Dim ond os oes ganddynt gysylltiad lleol a brofwyd neu eu bod o fath a ddefnyddiwyd unwaith yn yr ardal ond nad oes unrhyw enghreifftiau lleol ohonynt wedi goroesi y bydd eitemau o'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol yn cael eu casglu. Bydd polisïau casglu eraill yn ymwneud ag Amgueddfeydd (gweler Adran 6.0) hefyd yn cael eu hystyried.

**3.2** Archeoleg

Bydd Gwasanaeth Amgueddfeydd Bwrdeistref Sirol Conwy yn casglu deunydd archeolegol o'r ardal yn dyddio o'r cyfnodau cynharaf i'r presennol. Gall y rhain gael eu caffael drwy gloddio gwyddonol neu drwy ddod o hyd iddynt yn ddamweiniol. Bydd casglu yn glynu at y polisi a amlinellir yn adran 11.

**3.3** Hanes Cymdeithasol

Bydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn caffael gwrthrychau hanes cymdeithasol yn ymwneud â bywyd yn y cartref a gweithgarwch diwylliannol ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Bydd y pynciau yr ymdrinnir â hwy yn cynnwys addysg, crefydd, bywyd yn y cartref, arferion a chredoau, bywyd milwrol, meddygol, chwaraeon a hamdden. Er bod yna ychydig o gynrychiolaeth yn y casgliadau, fe ellid cryfhau'r meysydd hyn, yn arbennig o ran plentyndod, grwpiau lleiafrifol (LHDT/Pobl ddu a Lleiafrifoedd Ethnig), addysg, trosedd a chosb, gwyddoniaeth a bywyd gwaith.

**3.4** Hanes Economaidd
Bydd arteffactau yn cael eu casglu yn ymwneud, yn benodol, ag amaeth, coedwigaeth, twristiaeth, hanes morwrol, gweithio yn y chwarel, cloddio plwm, cynhyrchu clociau a'r diwydiant gwlân. Mae'r rhain i gyd yn cael eu tangynrychioli yn y casgliad ac mae angen casglu rhagweithiol. Yn benodol twristiaeth a diwydiant.

**3.5** Celfyddyd Gain ac Addurnol
Bydd Gwasanaeth yr Amgueddfeydd yn caffael gwaith celfyddyd gain ac addurnol a gynhyrchir gan artistiaid o'r Fwrdeistref Sirol neu sy'n darlunio golygfa neu bobl o'r Fwrdeistref Sirol. Mae casglu celf gyfoes yn fenter newydd ac mae'n cael ei dangynrychioli ac mae ganddo gasgliad bach Cymdeithas Celfyddyd Gyfoes Cymru.

**4.0 Themâu a blaenoriaethau ar gyfer ad-drefnu a gwaredu**
**4.1** Mae'r Gwasanaeth Amgueddfeydd yn cydnabod fod yr egwyddorion a ddefnyddir i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer ad-drefnu a gwaredu drwy broses adolygu ffurfiol sy'n nodi pa gasgliadau a gaiff eu cynnwys ac na gaiff eu cynnwys o'r adolygiad. Ni fydd canlyniad yr adolygiad ac unrhyw ad-drefnu dilynol yn lleihau ansawdd nac arwyddocâd y casgliad a bydd yn arwain at gasgliad a ddefnyddir ac a reolir yn well.

**4.2** Bydd y gweithdrefnau a ddefnyddir yn bodloni safonau proffesiynol. Bydd y broses yn cael ei dogfennu a bydd yn agored ac yn dryloyw. Fe fydd yna gyfathrebu clir gyda budd-ddeiliaid allweddol ynglŷn â'r canlyniadau a'r broses.

**4.3** Yn dilyn adroddiad arwyddocâd a wnaed yn nechrau 2013, mae rhai elfennau o'r casgliad wedi eu nodi ar gyfer ad-drefnu ac o bosibl gwaredu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Eitemau yn y casgliad celf sydd heb darddle a sydd wedi eu difrodi y tu hwnt i unrhyw atgyweirio.
- Deunydd hanes cymdeithasol sydd heb darddle ac a fyddai'n cael eu defnyddio'n well fel casgliadau o eitemau i'w cyffwrdd.
- Rwbel cyffredinol o gasgliadau archeoleg sydd heb lawer o arwyddocâd. Fe geisir cyngor proffesiynol gan archeolegydd allanol.
- Bydd pwysau a mesurau ac eitemau tlysau sydd wedi eu dyblygu yn cael eu hadolygu.

**5.0 Fframwaith cyfreithiol a moesegol ar gyfer caffael a gwaredu eitemau**
**5.1** Mae'r Gwasanaeth Amgueddfeydd yn cydnabod ei gyfrifoldeb i weithio o fewn paramedrau Cod Moeseg Cymdeithas yr Amgueddfeydd wrth ystyried caffael a gwaredu.

**5.2** Fe fydd yna gyfyngiadau ar Gasglu. Mae Gwasanaeth Amgueddfeydd CBSC yn cydnabod ei gyfrifoldeb wrth gaffael ychwanegiadau i'w gasgliadau, i sicrhau y bydd y broses o ofalu am gasgliadau, y trefniadau dogfennaeth a'r defnydd o gasgliadau yn bodloni isafswm y gofynion. Bydd yn cymryd i ystyriaeth y cyfyngiadau ar gasglu o

ganlyniad i ffactorau fel staffio, storio a gofalu am drefniadau casglu. Ni fydd gwasanaeth y Gwasanaethau Amgueddfeydd yn derbyn eitemau ar fenthyg oni bai fod angen hynny ar gyfer arddangosfa. Dim ond os oes ganddynt gysylltiadau a brofwyd gyda'r ardal gasglu y bydd eitemau â tharddiad nad yw'n lleol yn cael eu casglu.

- Gwisgoedd a Thecstilau: O ganlyniad i ofynion cadwraeth mawr y casgliadau tecstilau a gwisgoedd, bydd casglu fel arfer yn cael ei gyfyngu i eitemau sydd o ansawdd ar gyfer eu harddangos.
- Gan ychwanegu casgliadau diwydiannol - a chyfyngiadau o ran maint.
- Casgliadau Gwyddoniaeth: O ganlyniad i ddiffyg arbenigedd staff a gofynion cadwraeth mawr, fe fydd yna ragdybiaeth yn erbyn casglu deunydd astudiaeth natur neu ethnograffig ac eithrio pan fo angen hynny ar gyfer arddangosfeydd penodol.

**6.0 Polisïau casglu amgueddfeydd a phartneriaid eraill**

**6.1** Bydd y gwasanaeth amgueddfeydd yn cymryd i ystyriaeth bolisïau casglu amgueddfeydd a sefydliadau eraill sy'n casglu yn yr un meysydd neu bynciau neu rai cysylltiedig. Bydd yn ymgynghori â'r sefydliadau hyn lle gall gwrthdaro buddiannau godi neu i ddiffinio meysydd arbenigaeth, er mwyn osgoi dyblygu yn ddiangen a gwastraffu adnoddau.

**6.2** Fe gyfeirir yn benodol at yr amgueddfeydd achrededig canlynol:

| Conwy | Sir Ddinbych |
|---|---|
| **Conwy**<br>• Amgueddfa Llandudno<br>• Amgueddfa Syr Henry Jones<br>• Amgueddfa Penmaenmawr<br>• Tŷ Aberconwy<br>• Tolldy Conwy a Phont Grog Conwy<br>• Tŷ Mawr Wybrnant<br><br>**Gwynedd**<br>• Amgueddfa Lloyd George a Highgate<br>• Storiel<br>• Sefydliad Morwyr Y Bermo<br>• Amgueddfa Forwrol Llŷn<br>• Amgueddfa'r Rheilffordd Lein Gul<br>• Oriel Plas Glyn y Weddw<br>• Amgueddfa Forwrol Porthmadog<br>• Yr Ysgwrn<br>• Yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol<br>• Castell Penrhyn<br>• Plas yn Rhiw<br>• Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig | **Sir Ddinbych**<br>• Amgueddfa'r Rhyl<br>• Carchar Rhuthun<br>• Plas Newydd<br>• Rheilffordd Fach y Rhyl<br>• Gwefr heb Wifrau<br>• Amgueddfa Llangollen<br><br>**Sir y Fflint**<br>• Llyfrgell, Amgueddfa ac Oriel Yr Wyddgrug<br>• Llyfrgell, Amgueddfa ac Oriel Bwcle<br>• Amgueddfa Dyffryn Maes Glas<br>• Ffynnon Gwenffrewi<br><br>**Wrecsam**<br>• Amgueddfa Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>• Castell y Waun<br>• Erddig |

**6.3** Mae nifer o sefydliadau yn ymwneud ag archeoleg yng Nghonwy a bydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn cydgysylltu gydag Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys.

## 7.0 Daliadau Archifol

**7.1** Bydd Gwasanaeth Archifau CBSC yn cynnal Achrediad Archifau.

**7.2** Fe fydd yna ragdybiaeth yn erbyn caffael dogfennau a ffotograffau gan fod rhain yn ffurfio rhan o bolisi casgliadau Gwasanaeth Archifau Conwy.

**7.3** Pan gedwir dogfennau fel rhan o grŵp cyfannol gyda chasgliad o arteffactau, bydd rhestr yn cael ei darparu i Wasanaeth Archifau Conwy.

## 8.0 Caffael

**8.1** Dim ond dan amgylchiadau eithriadol iawn y bydd caffael yn cael ei wneud y tu allan i'r polisi cyfredol a nodwyd ac yna dim ond ar ôl ystyriaeth briodol gan y Gwasanaeth Amgueddfeydd ar ôl ystyried buddiannau Gwasanaethau Amgueddfeydd eraill.

**8.2** Ni fydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn caffael unrhyw wrthrych na sbesimen oni bai ei fod yn fodlon bod y gwrthrych neu'r sbesimen heb ei gaffael yn y wlad wreiddiol, neu wedi'i allforio oddi yno, (neu unrhyw wlad ganolraddol lle gallai fod wedi bod yn eiddo cyfreithiol) gan dorri cyfreithiau'r wlad honno. (At ddiben y paragraff hwn, mae 'gwlad wreiddiol' yn cynnwys y Deyrnas Unedig).

**8.3** Yn unol â darpariaethau Confensiwn UNESCO 1970 ar y Dulliau o Wahardd ac Atal Mewnforio, Allforio a Throsglwyddo Perchnogaeth Eiddo Diwylliannol yn Anghyfreithlon, a gadarnhawyd gan y DU o 1 Tachwedd 2002, a'r Ddeddf Delio gyda Gwrthrychau Diwylliannol (Troseddau) 2003, bydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn gwrthod unrhyw eitemau sydd wedi eu masnachu'n anghyfreithlon. Bydd y corff llywodraethu yn cael ei arwain gan y canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn 2005 ar gaffael eiddo diwylliannol yn gyfrifol.

**9.0 Gweddillion Dynol**

**9.1** Nid yw'r Gwasanaeth Amgueddfeydd yn cadw nac yn bwriadu caffael unrhyw weddillion dynol.

**10.0 Deunydd biolegol a daearegol**

**10.1** Cyn belled ag y mae deunydd biolegol a daearegol yn y cwestiwn ni fydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn caffael drwy unrhyw ddulliau uniongyrchol nac anuniongyrchol unrhyw sbesimen sydd wedi ei gasglu, ei werthu neu fel arall wedi ei drosglwyddo yn groes i unrhyw ddeddf neu gytundeb cenedlaethol neu ryngwladol yn ymwneud â diogelu bywyd gwyllt neu gadw natur yn y Deyrnas Unedig neu unrhyw wlad arall, ac eithrio gyda chydsyniad datganedig awdurdod allanol priodol.

**11. Deunydd archeolegol**

**11.1** Ni fydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn caffael deunydd archeolegol (gan gynnwys serameg sydd wedi ei gloddio) mewn unrhyw achos lle mae gan y corff llywodraethu neu'r swyddog cyfrifol unrhyw amheuaeth fod amgylchiadau eu hadferiad wedi ymwneud â methiant i ddilyn y gweithdrefnau cyfreithiol priodol.

**11.2** Ar gyfer pob deunydd archeolegol a ddarganfyddir yng Nghymru mae'r gweithdrefnau yn cynnwys rhoi gwybod am ganfyddiadau i'r tirfeddianwr neu feddiannydd y tir ac i'r awdurdodau priodol yn achos trysor posibl (h.y. y Crwner Trysor) fel y nodir yn y Ddeddf Trysor 1996 (fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009).

**12.0 Eithriadau**

**12.1** Bydd unrhyw eithriadau i'r cymalau uchod oherwydd y canlynol yn unig: Fod y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn gweithredu fel storfa dewis olaf a gymeradwywyd yn allanol ar gyfer deunydd sydd â'i darddiad yn lleol (Y DU); ei fod yn gweithredu gyda chaniatâd awdurdodau gydag awdurdodaeth angenrheidiol yn y wlad wreiddiol.Yn yr achosion hyn bydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn agored a thryloyw yn y modd y mae'n gwneud penderfyniadau a dim ond gyda chydsyniad datganedig awdurdod allanol priodol y bydd yn gweithredu. Bydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn dogfennu pryd y bydd yr eithriadau hyn yn digwydd.

**13.0 Ysbeilio**

**13.1** Bydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn defnyddio'r datganiad egwyddorion 'Ysbeiliad Gwaith Celf yn ystod cyfnod y Natsïaid, yr Holocost a'r Ail Ryfel Byd', a gyhoeddwyd ar gyfer amgueddfeydd nad ydynt yn rhai cenedlaethol yn 1999 gan y Comisiwn Amgueddfeydd ac Orielau.

**14.0 Dychwelyd ac Adfer gwrthrychau a gweddillion dynol**

**14.1** Amherthnasol Gweler 9.

**15.0 Gwaredu**

**15.1** Bydd pob gwarediad yn digwydd gan gyfeirio at weithdrefnau cynradd Sbectrwm ar waredu.

**15.2** Bydd y corff llywodraethu yn cadarnhau ei bod yn rhydd yn gyfreithiol i waredu eitem. Bydd cytundebau ar waredu a wnaed gyda rhoddwyr hefyd yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

**15.3** Pan ystyrir gwaredu gwrthrych amgueddfa, bydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn sefydlu a oedd wedi'i gaffael gyda chymorth sefydliad cyllido allanol. Mewn achosion o'r fath, dilynir unrhyw amodau sydd ynghlwm â'r grant gwreiddiol. Gall hyn gynnwys ad-dalu'r grant gwreiddiol a chyfran o'r elw os bydd yr eitem yn cael ei waredu drwy werthu.

**15.4** Pan fydd gwarediad yn cael ei ysgogi gan resymau curadurol bydd y gweithdrefnau a amlinellwyd isod yn cael eu dilyn a gall y dull gwaredu fod drwy rodd, gwerthiant a chyfnewid neu fel y dewis olaf – dinistrio.

**15.5** Bydd y corff llywodraethu yn gwneud y penderfyniad i waredu deunydd o'r casgliadau, ond dim ond yn dilyn ystyriaeth lawn o'r rhesymau dros waredu. Bydd ffactorau eraill gan gynnwys y budd i'r cyhoedd, y goblygiadau i gasgliadau'r amgueddfa a chasgliadau a gynhelir gan amgueddfeydd a sefydliadau eraill sy'n casglu'r un deunydd neu mewn meysydd cysylltiol yn cael eu hystyried. Hefyd fe geisir cyngor arbenigol a barn budd-ddeiliaid fel rhoddwyr, ymchwilwyr, cymunedau lleol a sy'n darddle ac eraill a wasanaethir gan yr amgueddfa.

**15.6** Bydd y penderfyniad i gael gwared ar sbesimen neu wrthrych, boed drwy rodd, gyfnewid, gwerthu neu ddinistrio (yn achos eitem sydd wedi'i ddifrodi neu wedi dirywio'n ormodol i fod o unrhyw ddefnydd at ddibenion y casgliadau neu am resymau iechyd a diogelwch), yn gyfrifoldeb corff llywodraethu'r amgueddfa sy'n gweithredu ar gyngor staff curadurol proffesiynol, os oes, ac nid y curadur neu reolwr y casgliad yn gweithredu ar ei ben ei hun.

**15.7** Unwaith y bydd penderfyniad i waredu deunydd yn y casgliad wedi'i wneud, rhoddir blaenoriaeth i'w gynnal o fewn y parth cyhoeddus. Felly bydd yn cael ei gynnig yn y lle cyntaf, drwy rodd neu ei werthu, yn uniongyrchol i amgueddfeydd achrededig eraill sy'n debygol o fod â diddordeb i'w gaffael.

**15.8** Os na fydd y deunydd yn cael ei gaffael gan unrhyw amgueddfa achrededig y cafodd ei gynnig iddi fel rhodd neu i'w werthu, yna bydd y gymuned amgueddfa yn cael gwybod am y bwriad i waredu'r deunydd fel arfer drwy hysbysiad ar wasanaeth rhestru gwefan Dod o Hyd i Wrthrych Cymdeithas yr Amgueddfeydd, cyhoeddiad yng Nghylchgrawn Amgueddfeydd y Gymdeithas Amgueddfeydd neu mewn cyhoeddiadau arbenigol eraill ac ar wefannau (os yn briodol).

**15.9** Bydd y cyhoeddiad sy'n ymwneud â rhodd neu werthiant yn nodi nifer a natur y sbesimenau neu wrthrychau, ac ar ba sail y bydd y deunydd yn cael ei drosglwyddo i sefydliad arall. Bydd datganiadau o ddiddordeb gan Amgueddfeydd Achrededig eraill yn cael eu ffafrio. Caniateir cyfnod o ddau fis o leiaf ar gyfer mynegi diddordeb mewn caffael y deunydd. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, os na dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb, gall y Gwasanaeth Amgueddfeydd ystyried gwaredu'r deunydd i unigolion eraill â diddordeb a sefydliadau gan roi blaenoriaeth i sefydliadau cyhoeddus.

**15.10** Bydd unrhyw arian a dderbynnir gan gorff llywodraethu'r Gwasanaeth Amgueddfeydd o waredu'r eitemau yn cael ei ddefnyddio er budd y casgliadau yn unig ac yn uniongyrchol ar gyfer hynny. Mae hyn fel arfer yn golygu prynu mwy o eitemau. Mewn achosion eithriadol, gall gwelliannau sy'n ymwneud â gofalu am gasgliadau er mwyn diwallu neu ragori ar ofynion Achredu sy'n ymwneud â'r risg o ddifrod i gasgliadau a dirywiad casgliadau gael ei gyfiawnhau. Bydd unrhyw arian a dderbynnir fel iawndal am y difrod i eitemau neu os ydynt yn cael eu colli neu eu difrodi yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd. Gofynnir am gyngor gan Lywodraeth Cymru / yr Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd ar yr achosion hynny lle bwriedir defnyddio arian ar gyfer gofalu am gasgliadau.

**15.11** Bydd yr elw o werthiant yn cael ei neilltuo fel y gellir dangos ei fod yn cael ei wario mewn dull sy'n cyd-fynd â gofynion safon yr Achredu. Rhaid cyfyngu arian i gynaliadwyedd, defnydd a datblygiad hirdymor y casgliad.

**15.12** Bydd cofnodion llawn yn cael eu cadw o'r holl benderfyniadau ar waredu a'r eitemau dan sylw a gwneir trefniadau priodol ar gyfer cadw a/neu drosglwyddo, fel bo'n briodol, y ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r eitemau dan sylw, gan gynnwys cofnodion ffotograffig lle bo'n ymarferol yn unol â'r weithdrefn Sbectrwm ar dynnu eitem yn swyddogol o amgueddfa i'w werthu a gwaredu.

**15.13** Ni fydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd yn gwaredu eitemau drwy gyfnewid.

**15.14** Os nad yw'n bosibl i waredu gwrthrych drwy drosglwyddo neu werthu, fe all y corff llywodraethu benderfynu ei ddinistrio.

**15.15** Mae'n dderbyniol dinistrio deunydd heb lawer o arwyddocâd ynddo'i hun (erthyglau wedi'u dyblygu lle cynhyrchwyd llawer ohonynt neu sbesimenau cyffredin heb darddiad arwyddocaol) lle na ellir dod o hyd i unrhyw ddull arall o waredu.

**15.16** Mae dinistrio hefyd yn ddull derbyniol o waredu mewn achosion lle mae gwrthrych mewn cyflwr gwael iawn, â risgiau uchel o ran iechyd a diogelwch neu'n rhan o ofyniad prawf dinistriol cymeradwy a nodwyd ym mholisi ymchwil sefydliad.

**15.17** Lle bo'r angen, gofynnir am gyngor arbenigol i sefydlu'r dull priodol o ddinistrio. Bydd asesiadau risg iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal gan staff hyfforddedig lle bo'r angen.

**15.18** Dylai aelod priodol o weithlu'r Gwasanaeth Amgueddfeydd fod yn dyst i ddinistrio gwrthrychau. Mewn amgylchiadau lle nad yw hyn yn bosibl, e.e. dinistrio sylweddau dan reolaeth, dylid cael tystysgrif yr heddlu a'i gadw yn y ffeil hanes gwrthrych perthnasol.